Rhif ymchwil gymdeithasol: 22/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/03/2026

# Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-128-9

Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth

Awdur:  Emma Yates

Adroddiad Ymchwil Llawn: Yates, E. (2026). Rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 22/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rhwystrau-i-addysg-uwch-yng-nghymru-adolygiad-o-dystiolaeth

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Addysg a Sgiliau ôl-16

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Crynodeb gweithredol ..... 2

2. Cyflwyniad ..... 4

3. Cwmpas ..... 4

4. Methodoleg ..... 6

5. Cyfyngiadau ..... 6

6. Cyd-destun addysg uwch ..... 7

   Diffiniad o addysg uwch ..... 7

   Datganoli ..... 7

   Cyllid ..... 8

7. Addysg uwch yng Nghymru ..... 9

8. Rhwystrau ..... 11

9. Rhwystrau strwythurol ..... 11

   Anghydraddoldeb ..... 11

   Anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ..... 12

   Rhywedd – Cymru ..... 14

   Rhywedd – y DU ..... 14

   Ethnigrwydd – Cymru ..... 15

   Ethnigrwydd – y DU ..... 16

   Anabledd – Cymru ..... 16

   Anabledd – y DU ..... 17

   Pwysau ariannol a chostau byw – Cymru ..... 18

   Pwysau ariannol a chostau byw – y DU ..... 19

10. Rhwystrau sy'n dod i'r amlwg ..... 22

   COVID-19 ..... 22

   Iechyd meddwl ..... 22

   Gwerth addysg uwch ..... 24

   Canllawiau a gwybodaeth ..... 25

   Deallusrwydd artiffisial a swyddi graddedigion ..... 25

11. Casgliadau ..... 27

Cyfeiriadau ..... 28

## 1. Crynodeb gweithredol

1.1. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried tystiolaeth ddiweddar am y rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru. Mae'n rhan o becyn gwaith ehangach i gefnogi diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr: cynllun gwerthuso 2024. Mae addysg uwch yng Nghymru a ledled y DU yn wynebu cyfnod heriol ar hyn o bryd, fel y nodwyd mewn papur gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026 (Llywodraeth Cymru, 2026). Mae'r papur yn darparu cyd-destun pwysig ac yn effeithio ar y math o rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yng Nghymru a'r DU yn ehangach, a'u natur. Yr hyn a olygir gan rwystrau yw ffactorau sy'n atal mynediad at addysg uwch a dilyniant o fewn addysg uwch.

1.2. Mae datganoli addysg, gan gynnwys addysg uwch yn y DU, wedi arwain at bedair system wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd â gwahanol ymagweddau at gymorth i fyfyrwyr o ran polisi a chyllid. Cymru sydd â'r cyfraddau cyfranogiad isaf o bobl ifanc 18 oed mewn addysg uwch o holl wledydd y DU gyda chyfradd mynediad o 29.2% yng Nghymru, a 36.3% ar draws y DU, (cylch UCAS 2025).

1.3. Wrth geisio deall y rhwystrau i addysg uwch y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yng Nghymru, dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad hwn:

- Mae lefel y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr ar draws holl wledydd y DU yn is na'r safon byw gofynnol. Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio'n negyddol ar y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr ar ryw lefel ledled y DU, gyda chanlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n effeithio ar eu hymgysylltiad ag addysg uwch, eu hiechyd meddwl a'u perfformiad academaidd.

- Rhaid i lawer o fyfyrwyr weithio yn ogystal ag astudio oherwydd angenrheidrwydd ariannol. Mae canlyniadau sylweddol i hyn gan fod llawer o fyfyrwyr yn treulio mwy o oriau mewn gwaith am dâl. Nid oedd hyn yn rhywbeth yr oedd cyrsiau addysg uwch amser llawn wedi cynllunio ar ei gyfer yn wreiddiol.

- Mae ymchwil (Huxley a Davies, 2024) yn dangos bod y bwlch cyfranogiad rhwng y myfyrwyr lleiaf a mwyaf breintiedig yn cynyddu. Yng Nghymru, mae pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn llawer llai tebygol o fynd i'r brifysgol.

- Mae ymchwil i'r heriau i addysg a chyrhaeddiad isel mewn ysgolion yng Nghymru yn dangos bod cyrhaeddiad blaenorol isel mewn sgiliau allweddol yn gynnar yn yr ysgol (sy'n golygu graddau TGAU is) yn rhwystr i gael mynediad at addysg uwch. Gall cyrhaeddiad blaenorol is olygu bod llai o fyfyrwyr yn sicrhau'r cymwysterau Safon Uwch neu'r cymwysterau cyfatebol y mae eu hangen i symud ymlaen i brifysgol.

- Yng Nghymru, gall dysgwyr mewn ardaloedd gwledig (yn ogystal â'r rhai sydd â diffyg trafnidiaeth gyhoeddus) wynebu rhwystrau ymarferol i gael mynediad at addysg drydyddol oherwydd dosbarthiad anwastad o ran sefydliadau. Gall

argaeledd cyfyngedig darpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach yn lleol gyfyngu’r dewis o bynciau, ac effeithio ar lwybrau i’r brifysgol.

- Mae menywod yn fwy tebygol o fynd i’r brifysgol na dynion, ac maent yn fwy tebygol o sicrhau graddau uwch. Dynion ifanc gwyn difreintiedig sydd lleiaf tebygol o fynd i’r brifysgol. Mae ymchwil i’r rheswm dros hyn yn awgrymu bod dynion ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn wynebu rhwystrau megis cyrhaeddiad academaidd blaenorol isel (o gamau addysgol cynnar), tebygoliaeth uwch o gael eu gwahardd o’r ysgol, diffyg modelau rôl gwrywaidd, ansicrwydd ynghylch sicrhau canlyniad llwyddiannus o ran swydd, pryderon ariannol a phryderon diwylliannol yn ymwneud â theimlo nad ydynt yn perthyn.

- Mae data Medr (2025) yn dangos bod nifer y myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi bod yn cynyddu. Mae llawer o gymhlethdodau yn perthyn i’r dystiolaeth sy’n dangos anghydraddoldebau dyfnach o ran mynediad i sefydliadau â thariff uchel, a chanlyniadau y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach.

- Mae cyfran y myfyrwyr ag anabledd mewn safleoedd addysg uwch yng Nghymru yn cynyddu. Gallai hyn awgrymu bod y rhwystrau y mae myfyrwyr anabl yn eu hwynebu yn lleihau. Fodd bynnag, mae hwn yn ddarlun cymhleth a allai hefyd fod wedi deillio o gynnydd yn nifer yr achosion o anableddau yn cael eu hadrodd.

- Mae gan boblogaethau myfyrwyr mwy amrywiol anghenion amrywiol, ac maent yn wynebu heriau costau byw, sy’n gwneud y model astudio llawn-amser traddodiadol yn anhygyrch neu’n hynod heriol. Gall hyn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, megis cyfrifoldebau gofalu, anableddau, salwch meddwl, anfanteision economaidd, neu fod o gefndir ethnig lleiafrifol.

- Mae llenyddiaeth yn awgrymu bod effaith pandemig COVID-19 ar addysg a chanlyniadau yn parhau gyda'r effeithiau yn dal i ddigwydd ar gyrhaeddiad, iechyd meddwl a lles.

- Mae’r farchnad swyddi i raddedigion yn newid, ac mae honiadau bod deallusrwydd artiffisial yn rhannol gyfrifol am ostyngiad mewn rolau lefel graddedig. Mae hyn yn cyfrannu at gwestiynau ynghylch ‘gwerth’ canfyddedig addysg brifysgol a’i chysylltiad â chanlyniadau llwyddiannus yn y farchnad lafur ar ôl graddio.

## 2. Cyflwyniad

2.1. Yn y papur diweddar gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, mae'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch yn disgrifio ymrwymiad i ddull blaengar o gynorthwyo myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru: '… sicrhau nad oes angen i rwystrau ariannol ddal talent ac uchelgais yn ôl, oherwydd credwn yn gryf na ddylai eich opsiynau ar gyfer astudiaeth bellach fyth gael eu cyfyngu gan eich cefndir'. Fodd bynnag, trafodir cyfres o heriau sy'n wynebu'r sector yng nghyd-destun 'newidiadau dramatig o ran cyfranogiad ac anghenion dysgwyr, pwysau economaidd, a chanlyniadau parhaus y pandemig ac ymadael â'r UE' (Llywodraeth Cymru, 2026).

2.2. Yn yr un modd, nodwyd ym Mhapur Gwyn diweddar Llywodraeth y DU ar addysg a sgiliau ôl-16, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, y dylai 'addysg uwch fod yn borth sy'n agored i bawb sydd â'r gallu a'r awydd i'w dilyn' (Llywodraeth EF, 2025). Mae llawer o fanteision i addysg uwch, i unigolion a'r gymdeithas yn ehangach, o enillion uwch gydol oes, rhagolygon gyrfa gwell, llai o amddifadedd a gwell llesiant.

2.3. Canfu adolygiad tystiolaeth cyflym diweddar o werth addysg bellach y gall addysg uwch gynyddu symudedd cymdeithasol a daearyddol pobl ifanc dan anfantais (Trawsnewid Canlyniadau a Mynediad Myfyrwyr at Addysg Uwch (TASO), 2023). Fodd bynnag, mae elfen o gymhlethdod i hyn. Er enghraifft, mae gwahaniaethau rhwng canlyniadau swyddi graddedigion difreintiedig a'r rhai o gefndiroedd mwy breintiedig (TASO, 2023). Fel y crynhowyd ym mriff ymchwil Tŷ'r Cyffredin ar addysg uwch yn y DU, mae canlyniadau economaidd graddedigion 'yn amrywio yn dibynnu ar o ble y mae'r myfyriwr yn dod, y pwnc y mae'n ei astudio, ei rywedd a'i ethnigrwydd, a'i gefndir economaidd-gymdeithasol' (Tŷ'r Cyffredin, 2024). Mae'n cyfeirio at ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a ganfu nad yw enillion economaidd o reidrwydd yn anochel yn achos pob unigolyn graddedig, ac y byddai un o bob pump o raddedigion wedi bod mewn sefyllfa well yn ariannol pe na byddent wedi mynd i'r brifysgol. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil diweddar a gynhaliwyd ar gyfer gwerthusiad diwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru, 2026) a ganfu fod pobl ifanc yn cydnabod gwerth addysg uwch, ond eto yn cwestiynu a ydyw pob gradd yn cynnig adenillion da o'u buddsoddiad. Yn yr un modd, mae ansicrwydd ariannol, ofn dyled, ac amheuon ynghylch rhagolygon swyddi i raddedigion yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried tystiolaeth am y rhwystrau i addysg uwch yng Nghymru. Mae'n rhan o becyn ehangach o waith dadansoddi sy'n adolygu diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o gyllid addysg uwch yng Nghymru o dan arweiniad Syr Ian Diamond. Mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad, gwnaeth Llywodraeth

Cymru gyfres o newidiadau i gyllid myfyrwyr o'r enw diwygiadau Diamond. Yn 2024, rhannodd Llywodraeth Cymru ei chynllun i werthuso diwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru, 2024). Un o amcanion diwygiadau Diamond oedd ehangu cyfranogiad a mynediad myfyrwyr Cymru at addysg uwch. Un cwestiwn ymchwil a oedd yn ganolog i becyn gwaith y cynllun tystiolaeth parthed ehangu mynediad oedd: **Beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at addysg uwch yng Nghymru?**

3.2. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y dystiolaeth ddiweddar sydd ar gael o Gymru a'r DU i ateb y cwestiwn hwn. Rhoddir blaenoriaeth i dystiolaeth o Gymru, ond caiff tystiolaeth ehangach o'r DU ei defnyddio os yw'r dystiolaeth benodol o Gymru yn gyfyngedig, ac oherwydd natur gydgysylltiedig a hanes cyffredin addysg uwch yn y DU. Mae llawer o rwystrau yn berthnasol i fyfyrwyr o bob rhan o'r DU; er enghraifft, rhwystrau yn ymwneud ag anghydraddoldeb a phwysau ariannol. Wrth ystyried 'rhwystrau strwythurol', mae'r dystiolaeth o Gymru a gweddill y DU wedi'i gwahanu er mwyn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar rwystrau i gyfranogiad, gan gynnwys mynediad at addysg uwch a dilyniant o fewn addysg uwch, ynghyd â chanlyniadau a phrofiad myfyrwyr.  Nid yw'r rhwystrau wedi cael eu hystyried ar wahân mewn camau penodol o'r daith addysg uwch. Gallai ymchwil pellach ystyried manylion llwybr rhwystrau er mwyn deall sut y mae rhwystrau'n amlygu eu hunain mewn camau unigol cyn, yn ystod, ac yn dilyn addysg uwch.

3.3. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Yn gyntaf, mae adran fethodoleg fer wedi'i chynnwys sy'n nodi sut y cynhaliwyd yr adolygiad tystiolaeth hwn, gan gynnwys y cyfyngiadau sy'n berthnasol.

- Yn ail, amlinellir rhywfaint o gyd-destun perthnasol i addysg uwch yn y DU ac yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys yr hyn a olygir gan 'addysg uwch' yn ôl deddfwriaeth, er nad yw'n darparu cofnod cynhwysfawr o'r holl gefndir perthnasol.

- Yn drydydd, mae'r adolygiad hwn yn parhau trwy amlinellu'r hyn a olygwn gan 'rhwystrau', a sut y mae hyn wedi'i gymhwyso er mwyn gwahaniaethu rhwng rhwystrau 'strwythurol' a rhwystrau 'sy'n dod i'r amlwg' at ddibenion yr astudiaeth hon. Mae rhwystrau strwythurol yn hirsefydlog ac yn deillio o strwythurau cymdeithasol neu economaidd, megis anghydraddoldeb addysgol, effaith anfantais economaidd-gymdeithasol, a nodweddion demograffig eraill, yn ogystal â chostau byw a chyfyngiadau ariannol. Yr hyn a olygir gan rwystrau sy'n dod i'r amlwg yw rhwystrau sydd wedi ymddangos yn dilyn digwyddiadau mwy diweddar, megis pandemig COVID-19, y dirywiad yn iechyd meddwl pobl ifanc, y newid o ran anghenion a realiti bywydau myfyrwyr, cwestiynau am 'werth' addysg uwch, y ddadl bod modelau addysg uwch traddodiadol wedi dyddio, ac effaith deallusrwydd artiffisial ar y farchnad lafur i raddedigion.

- Yn olaf, mae'r adroddiad yn cloi drwy grynhoi rhai canfyddiadau allweddol o'r dystiolaeth o'r llenyddiaeth.

# 4. Methodoleg

4.1. Y bwriad gyda'r adolygiad hwn yn wreiddiol oedd adolygu a chyfuno tystiolaeth o gyhoeddiadau perthnasol a chysylltiedig ar bynciau tebyg, gan gynnwys rhwystrau i gyfranogiad mewn addysg drydyddol, ymyriadau er mwyn cynyddu cyfranogiad, ac anghydraddoldeb mewn addysg drydyddol, yn ogystal ag ymchwil sy'n cynorthwyo'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond. Fe'i hategwyd gan gasgliad o chwiliadau llenyddiaeth a gynhaliwyd ar-lein rhwng mis Hydref 2025 a mis Ionawr 2026. Cwblhawyd y chwiliadau drwy ganolbwyntio ar dermau, gan gynnwys 'rhwystrau' ac 'anghydraddoldeb' mewn addysg uwch. Ategwyd y chwiliad cychwynnol hwn gan lenyddiaeth bellach y daethpwyd ar ei thraws o chwiliadau ar y gwefannau canlynol: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr), Y Sefydliad Polisi Addysg Uwch (HEPI), UCAS, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, TASO a gwefannau'r Llywodraeth.

4.2. Roedd y canlyniadau wedi'u cyfyngu i dystiolaeth o'r DU ac i bapurau ymchwil diweddar iawn (2021 ymlaen), papurau ymchwil y Llywodraeth, erthyglau cyfnodolion a rhywfaint o lenyddiaeth 'lwyd'. Cyfyngwyd y chwiliad i lenyddiaeth ddiweddar er mwyn canolbwyntio ar ddeall effaith digwyddiadau diweddar ar gyfranogiad a mynediad at addysg uwch. At ddibenion yr adolygiad hwn, mae llenyddiaeth lwyd yn cyfeirio at lenyddiaeth a luniwyd gan gymdeithas sifil annibynnol, y trydydd sector, sefydliadau llywodraethol neu fasnachol, neu gan academyddion ar gyfer cynulleidfaoedd anacademaidd. Dylid ystyried yr wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen hon yng nghyd-destun y meini prawf chwilio a ddefnyddiwyd.

# 5. Cyfyngiadau

5.1. Adolygiad llenyddiaeth thematig â phwyslais penodol yw hwn a gynhaliwyd at ddiben penodol, ac felly nid yw'n gynhwysfawr. Fel yr amlinellwyd uchod, mae wedi'i gyfyngu i lenyddiaeth ddiweddar iawn (2021 ymlaen). Golyga hyn ei fod yn cynnwys tystiolaeth sy'n adlewyrchu'r sector addysg uwch sy'n newid yng Nghymru wedi i ddiwygiadau Diamond gael eu rhoi ar waith, ac effaith pandemig COVID-19 a'r cynnydd sydyn yng nghostau byw ers 2021. Cydnabyddir bod llenyddiaeth hŷn yn bodoli ar y pwnc hwn o sectorau a sefydliadau gwahanol. Nid yw'n ymdrin â rhwystrau mewn perthynas ag ôl-raddedigion a myfyrwyr rhan-amser gan fod y dystiolaeth hon wedi'i chynnwys yn yr ymchwil i gynorthwyo'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru, 2026).

# 6. Cyd-destun addysg uwch

## Diffiniad o addysg uwch

6.1. Yn gyffredinol, yr hyn a olygir gan ‘addysg uwch’ yw cyrsiau gradd israddedig ac ôl-raddedig a astudir gan fyfyrwyr 18 oed neu hŷn. Yng Nghymru, diffinnir addysg uwch mewn deddfwriaeth, fel y nodir yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

6.2. O dan y fframwaith deddfwriaethol, caiff ‘cyrsiau addysg uwch’ eu diffinio fel cyrsiau sydd uwchlaw lefel addysg uwchradd, gan gynnwys graddau cyntaf (e.e. BA, BSc) ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, graddau ôl-raddedig (e.e. MA, MSc, PhD), Diplomâu Cenedlaethol Uwch, Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch, tystysgrifau neu ddiplomâu addysg uwch, a chyrsiau eraill ar lefel academaidd gymharol.

## Datganoli

6.3. Fel y mae briff ymchwil Tŷ’r Cyffredin yn ei gydnabod, mae gan wledydd y DU ‘hanes a rennir o ran addysg uwch, ac mae myfyrwyr a staff yn symud rhyngddynt’ (Tŷ’r Cyffredin, 2024). Mae datganoli addysg uwch wedi golygu bod Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu ffyrdd gwahanol o gyllido a rheoleiddio eu systemau addysg uwch.

6.4. Mae ymchwil i sut y mae datganoli wedi esblygu ym maes addysg uwch wedi canfod bod y pedair gwlad wedi mabwysiadu ymagweddau gwahanol a nodedig tuag at bolisi, a bod gwahaniaethau pwysig rhyngddynt o ran cyllid a pholisi, gyda Chymru yn cynnig y cymorth ariannol mwyaf hael i fyfyrwyr (HEPI, 2024). Mae gwahaniaethau hefyd rhwng y pedair gwlad o ran lefelau cyfranogiad ac anghydraddoldebau o fewn addysg uwch ymhlith gwahanol grwpiau demograffig, fel y’u harchwiliwyd gan y Sefydliad Polisi Addysg, a Chanolfan Sgiliau, Gwybodaeth a Pherfformiad Sefydliadol Prifysgol Rhydychen.

6.5. Canfu’r ymchwil wahaniaethau mawr yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 ar draws gwledydd y DU (Robson ac eraill, 2024). Gwnaeth yr astudiaeth hon ddau ganfyddiad allweddol parthed addysg uwch. Yn gyntaf ‘mae anghydraddoldebau’n broblem fawr ym mhobman’. Mae’r rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o ennill cymhwyster Safon Uwch, ac yn llai tebygol o ennill cymhwyster lefel gradd (Robson ac eraill, 2024). Yn ail, canfu’r adroddiad bod y ‘canlyniadau yng Nghymru, yn arbennig, yn peri pryder’ (Robson ac eraill, 2024). Mae lefelau isel o gyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru, gyda dynion ifanc Cymru â’r lefelau isaf o gyfranogiad mewn addysg uwch o’i gymharu â’u cymheiriaid ledled y DU.

## Cyllid

6.6. Mae'n bwysig tynnu sylw at ddatblygiadau diweddar ar draws sector prifysgolion y DU o ran ansefydlogrwydd ariannol gan fod hyn yn darparu cyd-destun pwysig ac yn effeithio ar y math o rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a'u natur. Mae goblygiadau ariannol pellgyrhaeddol i brifysgolion o ganlyniad i gostau uwch, nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu derbyn, a ffioedd dysgu nad ydynt wedi bod yn dal i fyny â chwyddiant cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae hyfywedd ariannol y sector addysg uwch ledled y DU wedi dod dan straen cynyddol. Rhoddwyd sylw i rai o'r materion hyn ym Mhapur Gwyn diweddar Llywodraeth y DU. Er enghraifft, cyhoeddodd y Papur Gwyn y bydd ffioedd dysgu myfyrwyr yn Lloegr yn cynyddu yn unol â chwyddiant o 2026 ymlaen (Llywodraeth EF, 2025).

6.7. Adroddodd y Swyddfa Fyfyrwyr fod 43% o'r sefydliadau a gafodd eu cynnwys yn eu dadansoddiad o Loegr yn rhagweld diffyg ariannol ar gyfer 2024–2025, a bod prifysgolion ledled y DU wedi cyhoeddi bwriadau i wneud toriadau i'w gweithlu (Y Swyddfa Fyfyrwyr, 2025). Ar ddechrau 2025, cyhoeddodd Prifysgol Caerdydd gynigion ar gyfer ailstrwythuro'r ddarpariaeth a cholli 400 o swyddi academaidd (Llywodraeth Cymru, 2025). Nododd prifysgolion ledled Cymru ddiffygion ariannol sylweddol yn ystod 2023–2024 (Llywodraeth Cymru, 2025).

6.8. Mae problemau yn gysylltiedig â chyflawni hefyd gan fod y model ariannu presennol wedi'i gynllunio ar gyfer rhaglenni tair blynedd traddodiadol, ac nid yw'n cynorthwyo'r galw cynyddol am opsiynau byrrach a mwy hyblyg yn ddigonol (Llywodraeth Cymru, 2026). Mae llenyddiaeth yn awgrymu y gallai modelau addysg uwch hen-ffasiwn effeithio ar allu pobl ifanc o wahanol ddemograffeg i gael mynediad at addysg uwch gan ei fod yn fodel nad yw'n cyd-fynd ag anghenion myfyrwyr cyfredol na realiti eu bywydau, fel y cydnabyddir gan ymchwil ddiweddar i fywydau gwaith myfyrwyr (HEPI, 2025):

> Nid yw'r ddelwedd hen-ffasiwn o fyfyriwr ifanc, llawn-amser o gefndir ariannol diogel bellach yn adlewyrchu realiti poblogaeth myfyrwyr fodern. Mae oedran, cefndir ac amgylchiadau bywyd myfyrwyr heddiw yn fwy amrywiol. Yn aml, mae gan y myfyrwyr hyn gyfrifoldebau ychwanegol, megis gofalu am ddibynyddion, cyfrannu at incwm y cartref, neu reoli cyflyrau iechyd. Mae'r pwysau croestoriadol hyn yn golygu eu bod yn dibynnu mwy ar waith am dâl, ac mae'n lleihau eu gallu i ymgysylltu'n llawn â bywyd prifysgol (HEPI, 2025).

6.9. Yn ogystal â hyn, nid yw'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr wedi codi yn unol â chynnydd chwyddiant diweddar ledled y DU, sydd wedi golygu bod myfyrwyr wedi gweld toriadau i'w cymorth ariannol mewn termau real (Tŷ'r Cyffredin, 2024). O ganlyniad, ni all llawer o fyfyrwyr gynnal safon byw gofynnol drwy ddibynnu ar gyllid myfyrwyr yn unig.

6.10. Rhoddwyd sylw i rai o'r materion hyn yng Nghymru mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar gymorth ariannol a ffioedd dysgu mewn addysg uwch

(Llywodraeth Cymru, 2025). Er enghraifft, bydd grantiau cynhaliaeth yn cynyddu 2.0% am y tro cyntaf ers 2018. Mae HEPI yn argymell bod yr orfodaeth ar lawer o fyfyrwyr i weithio, yn ogystal ag astudio, yn cael ei gydnabod fel 'ffactor canolog sy'n llywio llesiant myfyrwyr, ymgysylltiad academaidd, deilliannau a rhagolygon hirdymor' (HEPI, 2025).

6.11. O ystyried yr heriau y mae prifysgolion yn eu hwynebu, y penderfyniadau dilynol, a goblygiadau'r heriau hyn, ynghyd â'r realiti bod llawer o fyfyrwyr yn gweithio yn ogystal ag astudio, mae'n anochel ei fod yn mynd i effeithio ar ganfyddiad pobl ifanc o fanteision, gwerth a rhwystrau addysg mewn prifysgol. O'r herwydd, maent yn uniongyrchol berthnasol i'r adolygiad hwn, a dylid eu hystyried fel cyd-destun pwysig.

# 7. Addysg uwch yng Nghymru

7.1. O ran y fframwaith rheoleiddio yng Nghymru, sefydlodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) a ddechreuodd weithredu fel corff hyd braich i Lywodraeth Cymru ar 1 Awst 2024. Cylch gwaith Medr yw ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol fel system integredig yng Nghymru, sy'n cynnwys cyfrifoldeb am ariannu a rheoleiddio addysg uwch.

7.2. Darperir addysg uwch yng Nghymru yn bennaf gan naw prifysgol, gan gynnwys y Brifysgol Agored. Mae colegau addysg bellach yng Nghymru hefyd, ac mae rhai ohonynt yn cynnig cyrsiau addysg uwch, megis graddau a diplomâu, fel arfer ar y cyd â phrifysgol gyfagos. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad Tŷ'r Cyffredin (2024), mae prifysgolion sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yn 'sefydliadau ymreolaethol, hunanlywodraethol', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol am sefydlu eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain, ond eu bod o fewn cyd-destun polisi ehangach a osodir ar lefel genedlaethol.

7.3. O ran y llwybr tuag at addysg uwch, mae system ysgolion Cymru yn parhau i gynnwys (i raddau helaeth) ysgolion cynhwysfawr, annetholus a ariennir ac a reolir gan awdurdodau lleol. Mae oddeutu chwarter o ysgolion yn ysgolion Cymraeg (Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer addysgu a dysgu). Mae llawer llai o ddisgyblion yng Nghymru yn mynychu ysgolion annibynnol, o'i gymharu â'r Alban a Lloegr (HEPI, 2025).

7.4. Mae adroddiad gan y Senedd ar lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn tynnu sylw at y ffaith bod llai o unigolion 18 oed o Gymru yn gwneud cais i fynd i'r brifysgol nag unigolion 18 oed yn Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon (Senedd Cymru, 2025). Mae data diweddar 2025 yn dangos mai Cymru sydd â'r cyfraddau cyfranogiad isaf o bobl ifanc 18 oed mewn addysg uwch o holl wledydd y DU gyda chyfradd mynediad o 29.2% yng Nghymru, a 36.3% ar draws y DU, (cylch UCAS 2025).Fodd bynnag, honnai'r adroddiad y Senedd, yn ystod 2022–2023, bod y gyfran o fyfyrwyr hŷn (21 oed+) a rhan-amser yng Nghymru yn uwch na Lloegr ((Senedd Cymru, 2025).

7.5. Er gwaethaf y gwahaniaethau rhwng y pedair gwlad, mae ‘rhyng-gysylltiad’ yn nhirwedd addysg uwch y DU (y Sefydliad Polisi Addysg Uwch 2024). Mae HEPI yn nodi bod ‘symudedd myfyrwyr yn briodoledd nodedig o addysg uwch yng Nghymru. Mae myfyrwyr Cymru wedi bod yn cael eu denu at y sector fwy yn Lloegr ers tro byd … a phob blwyddyn, mae ychydig o dan draean o’r israddedigion sy’n byw yng Nghymru yn cofrestru ar gyrsiau gyda darparwyr yn Lloegr’ (HEPI, 2024).

7.6. Yng Nghymru, gall dysgwyr mewn ardaloedd gwledig (yn ogystal â’r rhai sydd â diffyg trafnidiaeth gyhoeddus) wynebu rhwystrau ymarferol i gael mynediad at addysg drydyddol oherwydd dosbarthiad anwastad o sefydliadau. Gall argaeledd cyfyngedig darpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach yn lleol gyfyngu’r dewis o bynciau a hyblygrwydd llwybrau (Sibieta a Miles, 2024). Gall y cyfyngiadau hyn gael effaith anghymesur ar ddysgwyr mewn ardaloedd mwy anghysbell neu ardaloedd o amddifadedd. Gall diffyg darpariaeth chweched dosbarth mewn rhai ardaloedd gyfrannu at y cyfraddau is o fyfyrwyr sy’n astudio Safon Uwch, y mae ei angen er mwyn cael mynediad at addysg uwch. Ar ben hynny, nododd adroddiad y Senedd ar lwybrau at addysg ôl-16 yr heriau sy’n deillio o ymdrin â gwrthdaro a chystadleuaeth rhwng ysgolion â chweched dosbarth a darparwyr ôl-16 eraill, a allai fod yn effeithio ar y dewisiadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud (Senedd Cymru, 2025).

7.7. Cynhaliodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (a oedd â chyfrifoldeb dros addysg uwch cyn y sefydlwyd Medr) astudiaeth ymchwiliol ar ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru, a chanfu mai dim ond un o bob tri o bobl ifanc Cymru a aeth ymlaen i addysg uwch. Daethpwyd i’r casgliad bod pobl sy’n byw yng Nghymru, sydd ag anabledd, yn ofalwyr, yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, neu’n ddynion ifanc, wedi cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch yn draddodiadol (CCAUC, 2024). Bu’r astudiaeth yn ystyried modelau cyflwyno addysg uwch, ac a ydynt yn diwallu anghenion myfyrwyr. Canfu mai’r radd anrhydedd israddedig amser llawn tair blynedd o hyd yw’r model cyflwyno mwyaf cyffredin. Mae modelau eraill yn bodoli, ac mae rhywfaint o amrywiaeth i’w gael, ond mae llai o gyfleoedd y tu allan i’r model mwyaf cyffredin (CCAUC, 2024).

7.8. Mae’r bwlch cyfranogiad rhwng y myfyrwyr lleiaf a mwyaf breintiedig yng Nghymru yn cynyddu. Mae ymchwil sy’n cysylltu ac yn dadansoddi data gweinyddol ar lefel unigol o Gymru yn dangos bod pobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol mwy breintiedig yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg uwch na’u cyfoedion llai breintiedig (Huxley a Davies, 2024). Mae hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol blaenorol (gweler mwy isod). Ar ben hynny, canfu wahaniaethau yng nghyfraddau cyfranogiad cyffredinol mewn addysg uwch rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru (Huxley a Davies, 2024). Mae ehangu mynediad at addysg uwch a chyfranogiad yng Nghymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn ffocws i Lywodraeth Cymru, CCAUC, a Medr erbyn hyn.

# 8. Rhwystrau

8.1. Yr hyn a olygir gan ‘rhwystrau’ yw ffactorau neu heriau sy’n atal mynediad at addysg uwch, cyfranogiad, a dilyniant o fewn addysg uwch. Mae’r dirwedd yn gymhleth, ac mae gwahanol fathau o rwystrau sydd wedi’u categoreiddio mewn gwahanol ffyrdd yn y llenyddiaeth. Mae llawer o rwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu yn gorgyffwrdd ac yn cydberthyn, megis y rhai sy’n ymwneud â chyllid, gwaith myfyrwyr, a ‘gwerth’ canfyddedig addysg uwch. Mae adolygiad o dystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn categoreiddio heriau fel rhai agweddol, sefyllfaol, a sefydliadol (Neesom ac eraill, 2024; yn dyfynnu Pember ac eraill, 2021). Mae’n amlwg hefyd bod rhwystrau ariannol hefyd yn ffactor, megis pwysau costau byw, diffyg cymorth ariannol digonol, a ffioedd dysgu uwch (Neesom ac eraill, 2024).

8.2. Yn yr adolygiad hwn, caiff rhwystrau eu cysyniadu yn nhermau rhwystrau ‘strwythurol’, megis anghydraddoldeb sefydlog a hirdymor, a rhwystrau ‘sy’n dod i’r amlwg’ sy’n gymharol newydd ac o ganlyniad i ddigwyddiadau ac amgylchiadau diweddar. Mae natur hollbresennol yr anghydraddoldeb ym maes addysg yn ffactor ataliol strwythurol ac nid yn broblem unigol, ac yn cydberthyn i rwystrau ar sawl lefel ac yn dylanwadu arnynt; er enghraifft, drwy effeithio ar allu unigolyn ifanc i gael y graddau y mae eu hangen i fynd i’r brifysgol. Mae rhwystrau sy’n dod i’r amlwg yn ganlyniad i ddigwyddiadau cyfoes, ac yn amlinellu’r anawsterau cyfredol sydd wedi codi o ganlyniad i bandemig COVID-19, yr argyfwng costau byw, a’r defnydd eang o ddeallusrwydd artiffisial mewn gweithleoedd (a’i effaith bosibl ar swyddi graddedigion). Gall y rhwystrau hyn effeithio ar ‘werth’ canfyddedig prifysgol.

# 9. Rhwystrau strwythurol

## Anghydraddoldeb

9.1. Mae nifer o rwystrau sy’n ymwneud ag anghydraddoldeb, megis cefndir economaidd-gymdeithasol, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd, ac archwilir y rhain yn fanwl isod. Fodd bynnag, yn gyntaf mae angen deall natur anghydraddoldeb fel rhwystr strwythurol mewn addysg nad yw o ganlyniad i fethiannau unigol. Mae strwythurau cymdeithasol sydd wedi’u gwreiddio mewn anghydraddoldeb yn golygu ei bod yn anoddach i rai pobl ifanc gael mynediad at addysg uwch, neu wneud cynnydd o fewn addysg uwch. Mae hyn yn egluro’r rhwystrau eraill sy’n dilyn anghydraddoldeb addysgol, megis cyrhaeddiad isel blaenorol.

9.2. Mae adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar anghydraddoldeb addysgol (Farquharson ac eraill, 2022) yn adolygu pob agwedd ar anghydraddoldeb addysgol yn fanwl. Mae’n tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol yn dod i’r amlwg yn gynnar yn ystod plentyndod, ac yn datblygu bywyd unigolyn:

Mae anghydraddoldebau addysgol o ganlyniad i gefndir teuluol yn sylweddol, yn hollbresennol, ac yn parhau'n ddigyfnewid. Ym mhob cam o addysg, mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn llawer llai tebygol o gyflawni meincnodau addysgol. Mae'r bylchau hyn hyd yn oed yn fwy, o safbwynt cymesuredd, pan ystyriwn lefelau uwch o ran cyrhaeddiad (Farquharson ac eraill, 2022).

## Anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

9.3. Gellir diffinio anfantais economaidd-gymdeithasol fel: 'byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas' (Mills, 2021), a gall gynnwys byw mewn ardal o amddifadedd, incwm isel, a/neu brofi amddifadedd materol (Mills, 2021). Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhwystr i addysg gyffredinol plant, ac yn dylanwadu ar ganlyniadau addysgol, gan gynnwys a ydyw unigolyn ifanc yn mynd ymlaen i addysg uwch ai peidio. Mae cysylltiad rhyngddo â chanlyniadau addysgol gwaeth ymhlith plant, drwy effeithio ar gyfraddau dilyniant a lefelau cyrhaeddiad (Mills, 2021). Mae 'bwlch cyrhaeddiad' yn ôl lefel incwm rhieni i'w weld ar draws pob cam o addysg, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae COVID-19 wedi gwneud y bwlch hwn yn fwy.

9.4. Yng Nghymru, mae pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn llawer llai tebygol o symud ymlaen i addysg uwch. Mae canlyniadau TGAU yn dangos bod canran is o fyfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn sicrhau graddau A*–C (39% yn 2024–2025) o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys (68.3% yn 2024–2025) (StatsCymru, Llywodraeth Cymru, 2026).

9.5. Mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai na hanner mor debygol o fynd ymlaen i addysg uwch (19%) na dysgwyr nad ydynt yn gymwys (43%) (Huxley a Davies, 2024). Mae data UCAS, a ddyfynnwyd yn adroddiad 'Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16' y Senedd yn dangos, yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (cwintel 1), fod 20.5% o ddysgwyr 18 oed wedi gwneud cais i fynd i brifysgol, o'i gymharu â 50.2% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (cwintel 5) (Senedd Cymru, 2025).

9.6. Mae dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch yn fwy tebygol o fynd i'r chweched dosbarth, tra bod y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o fynd i golegau addysg bellach. Fel y nodwyd uchod, caiff hyn ei lywio'n rhannol gan argaeledd a diffyg darpariaeth chweched dosbarth mewn rhai ardaloedd, a all wthio dysgwyr tuag at lwybrau galwedigaethol (Sibieta a Miles, 2024).

9.7. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn bodoli ledled Cymru. Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod bron i draean (31%) o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar ôl ystyried costau tai (Llywodraeth Cymru 2025). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaeth daearyddol sylweddol yng Nghymru o ran

amledd a difrifoldeb anfantais economaidd-gymdeithasol, ond ei fod i'w gael ym mhob lleoliad, o ardaloedd trefol poblog i leoliadau gwledig.

9.8. Yng Nghymru, ymchwiliwyd i gyrhaeddiad isel mewn ysgolion yn adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar heriau i addysg yng Nghymru (Sibieta, 2024). Cyfeiriwyd at sgoriau'r Rhaglen Asesu Myfyrwyr Cenedlaethol (PISA) yn yr adroddiad hwn fel ffordd o gymharu sgiliau darllen, rhifedd a gwyddoniaeth pobl ifanc. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sy'n gyfrifol am PISA, ac mae'n 'mesur gallu pobl 15 oed i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth i ddiwallu heriau bywyd go iawn' (gwefan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2026). Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Roedd y gostyngiad a welwyd yn sgoriau PISA yng Nghymru yn fwy (ers 2018) nag yn y rhan fwyaf o wledydd eraill yn 2022, gan ddod â Chymru i'w lefel isaf, sy'n is na'r ffigurau cyfartalog ar draws gwledydd y sefydliad, ac yn sylweddol is na'r rhai a welwyd ar draws gweddill y DU.

- Mae'r gwahaniaethau hyn yn ymestyn i ganlyniadau TGAU. Yn Lloegr, roedd y bwlch mewn canlyniadau TGAU rhwng disgyblion difreintiedig a disgyblion eraill yn cyfateb i 18 mis o gynnydd addysgol. Yng Nghymru, roedd y bwlch hyd yn oed yn fwy, sef 22–23 mis yn 2019.

- Nid oes modd priodoli'r sgoriau is yng Nghymru i dlodi yn unig.

- Mae'r canlyniadau addysgol ôl-16 yn waeth yng Nghymru, gyda chyfran uwch o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant nag yng ngweddill y DU (11% o'i gymharu â 5–9%), lefelau is o gyfranogiad mewn addysg uwch, yn enwedig ymhlith dynion ifanc, a lefelau is o ran cyflogaeth a chyflog ymhlith unigolion o gefndiroedd difreintiedig.

- Awgrymwyd bod yr esboniad am berfformiad addysgol is yn arddangos gwahaniaethau hirsefydlog mewn polisi a dull, megis lefelau is o atebolrwydd allanol a llai o ddefnydd o ddata (Sibieta, 2024).

9.9. Mae cyrhaeddiad blaenorol isel mewn sgiliau allweddol yn gynnar yn yr ysgol yn arwain at raddau TGAU is, sy'n rhwystr i gael mynediad at addysg uwch. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig pan ddaw ffactorau gwahanol ynghyd (megis diffyg strwythurau cymorth, a gwahaniaethau o ran disgwyliadau rhieni) ac yn rhwystro cyrhaeddiad ac yn lleihau eu gallu i symud ymlaen i addysg uwch (Senedd Cymru, 2025).

9.10. Gall cyrhaeddiad blaenorol is olygu bod llai o fyfyrwyr yn astudio Safon Uwch sy'n arwain at fynd i'r brifysgol. Mae'r Senedd, yn eu hadroddiad ar lwybrau at addysg ôl-16, yn dyfynnu data cyfrifiad sy'n dangos bod 41% o ddysgwyr nad ydynt yn wynebu unrhyw amddifadedd yn astudio Safon Uwch, o'i gymharu ag 8% o ddysgwyr sy'n arddangos amddifadedd mewn gwahanol ardaloedd. Yn fwy cyffredinol, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfran y bobl ifanc a

aeth ymlaen i lefelau Safon Uwch Gyfrannol yn 2024–2025 yn parhau i fod yn is na'r cyfnod cyn y pandemig (aeth 52% o ddisgyblion ymlaen i lefelau Safon Uwch Gyfrannol yn 2017–2018 o'i gymharu â 49% yn 2024–2025). Mae Prifysgolion Cymru yn dadlau bod y ffaith bod 'llai o bobl 16 oed yn astudio Safon Uwch yn golygu bod llai o fyfyrwyr yn symud ymlaen i addysg uwch a swyddi crefftus uwch' (dyfynnwyd yn Senedd Cymru, 2025).

## Rhywedd – Cymru

9.11. Mae menywod yn fwy tebygol o fynd i'r brifysgol na dynion, ac mae hyn wedi bod yn wir ers sawl blwyddyn. Mae menywod hefyd yn fwy tebygol o sicrhau graddau uwch. Mae data Medr yn dangos bod maint mwyafrif y myfyrwyr benywaidd mewn addysg uwch wedi cynyddu o 55% yn 2016–2017 i 56.8% yn 2024–2025 (Medr, 2026). Ymhlith darparwyr addysg uwch yng Nghymru, mae'r gyfran hon wedi bod rhwng 56% a 57% bob blwyddyn ers 2018–2019 (Medr, 2026). Mae gwahaniaethau o ran y pynciau a ddewisir gan ddynion a menywod, ac mae cyfran y myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd yn amrywio llawer yn ôl disgyblaeth. Archwilir hyn ymhellach mewn mannau eraill (Farquharson ac eraill, 2022).

9.12. Mae data UCAS yn dangos bod y bwlch yng nghyfradd mynediad prifysgolion yng Nghymru ar gyfer pobl 18 oed yn fwy na rhannau eraill o'r DU. Mae anghysonder sylweddol hefyd yn ôl haniad o ran ethnigrwydd, gyda dynion ifanc gwyn difreintiedig yn fwyaf annhebygol o fynd ymlaen i brifysgol (Hillman a Brooks, 2025).

## Rhywedd – y DU

9.13. Nid yw cydraddoldeb rhywedd o ran mynediad at addysg uwch yn golygu cydraddoldeb o ran dilyniant, enillion cyfartal na llesiant eto. Mae menywod wedi'u tangynrychioli mewn llawer o bynciau, ac nid yw'r nifer uwch o fenywod sy'n mynd i'r brifysgol yn golygu enillion uwch i fenywod ar ôl graddio. Fel yr adroddwyd gan Dŷ'r Cyffredin: 'mae enillion cyfartalog graddedigion gwrywaidd oddeutu 9% yn uwch nag enillion menywod flwyddyn ar ôl graddio. Mae'r bwlch enillion hwn yn cynyddu'n sylweddol yn ystod eu gyrfaoedd cynnar ac yn cyrraedd 31% ddeng mlynedd ar ôl graddio' (Tŷ'r Cyffredin, 2024). Mae llawer o dystiolaeth y gellid ei harchwilio ymhellach i nodi'r rhwystrau a'r cymhlethdod y mae menywod yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag gwneud cynnydd, ennill incwm, a manteisio ar eu haddysg uwch, ond mae hynny y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn.

9.14. Archwiliwyd y rhwystrau sy'n atal dynion ifanc, difreintiedig rhag mynd i'r brifysgol gan HEPI mewn adroddiad o'r enw 'Boys will be boys: The educational underachievement of boys and young men' (Hillman a Brooks, 2025). Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddata UCAS ar gyfer ymgeiswyr 19 oed ac yn nodi, 'yn 2024–2025, roedd oddeutu 44,000 yn llai o ddynion na menywod sy'n byw yn y

DU wedi derbyn lle mewn sefydliad addysg uwch yn y DU’ (Hillman a Brooks, 2025).

9.15. Mae dynion ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn wynebu nifer o rwystrau, gan gynnwys cyrhaeddiad academaidd blaenorol isel, sy’n dechrau’n gynnar yn eu bywyd addysgol. Maent yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o’r ysgol, ac nid oes ganddynt lawer o fodelau rôl gwrywaidd yn hyrwyddo addysg uwch. Mae ymchwil yn nodi rhwystrau ysgogol rhag mynd ymlaen i addysg uwch, megis y costau cyfle o beidio â gallu dechrau gwaith llawn-amser, ansicrwydd ynghylch sicrhau canlyniad llwyddiannus o ran swydd, a phryderon yn ymwneud â theimlo nad ydynt yn perthyn (Hillman a Brooks, 2025).

9.16. Mae Hillman a Brooks yn honni bod amharodrwydd wedi bod i ystyried y materion hyn, yn rhannol oherwydd y rhwystrau y mae menywod wedi’u hwynebu’n hanesyddol. Maent yn crynhoi hyn fel a ganlyn:

> Er bod HEPI ac eraill wedi ysgrifennu am y broblem o danberfformiad ymhlith dynion o’r blaen, ychydig iawn o weithredu sydd wedi bod, ac ni ddangoswyd llawer o bryder tan yn ddiweddar. Mae wedi teimlo weithiau, hyd yn oed pan fydd y broblem o danberfformio ymhlith dynion wedi’i deall, ei bod yn cael ei hystyried yn rhan ddigyfnewid o fywyd modern, neu’n broblem sy’n rhy anodd i fynd i’r afael â hi, a bod angen adnoddau ariannol sylweddol, newid mewn lefelau dyheadau, a newid mewn diwylliant i’w datrys. Gall y diffyg brys ddeillio’n rhannol o’r ffaith anochel, yn hanesyddol, bod y rolau wedi’u gwrthdroi, gyda mwy o fyfyrwyr gwrywaidd na benywaidd (tan y 1990au) neu’r ymdeimlad cyffredinol bod menywod yn parhau i wynebu cymaint o rwystrau eu hunain, yn enwedig yn y farchnad lafur … (Hillman a Brooks, 2025).

## Ethnigrwydd – Cymru

9.17. Mae data gan Medr (Medr, 2025) yn dangos bod nifer y myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd. Mae adroddiad Medr yn amlinellu gwybodaeth am gefndir ethnig y rhai sy’n gwneud cais ar gyfer addysg uwch drwy UCAS, nifer y myfyrwyr sy’n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a’u canlyniadau gradd. Mae ystadegau diweddaraf Medr ar fyfyrwyr mewn addysg uwch yn amlinellu bod 17% o’r cofrestriadau a wnaed yn 2024–2025 gan fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Roedd hyn yn gynnydd o 16% (yn 2023–2024), a 10% yn 2016–2017 (Medr, 2026).

9.18. Y duedd gyffredinol yw bod cyfran gynyddol o ymgeiswyr o grwpiau Asiaidd, Du, cefndiroedd ethnig cymysg, a chefndiroedd ethnig eraill, gyda’r cynnydd mwyaf i’w weld ymhlith y rhai o gefndir ethnig Asiaidd (Medr, 2025). Fodd bynnag, mae canran yr ymgeiswyr sy’n cael cynnig lle yn gyson uwch ymhlith y rhai o gefndir ethnig gwyn neu gymysg na’r rhai o gefndir ethnig Asiaidd, Du neu

arall. Mae hyn yn wir am ymgeiswyr 18 oed ac ymgeiswyr o bob oed (Medr, 2025).

9.19. O ran canlyniadau, mae Medr yn tynnu sylw at y ffaith, yn ystod y cyfnod rhwng 2016–2017 a 2023–2024, bod myfyrwyr gwyn wedi bod yn fwy tebygol yn gyson o gael gradd anrhydedd dosbarth cyntaf na myfyrwyr o unrhyw gefndir ethnig arall. Mae myfyrwyr o gefndir ethnig Du wedi bod yn fwy tebygol yn gyson o gael gradd ail ddosbarth is neu drydydd dosbarth na myfyrwyr o gefndiroedd ethnig eraill (Medr, 2025).

## Ethnigrwydd – y DU

9.20. Mae ymchwil wedi canfod bod pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fod y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol (Henderson ac eraill, 2019). Mae hyn yn berthnasol gan fod y myfyrwyr hyn yn llai tebygol o fynd i brifysgolion tariff uchel neu fawreddog, ac yn fwy tebygol o roi'r gorau i addysg. Mae rhwystrau i grwpiau ethnig lleiafrifol yn cynnwys bylchau mewn cyflawniad academaidd blaenorol, diffyg gwybodaeth a chefnogaeth, pryderon ariannol a rhwystrau daearyddol (Le Carpentier, 2023). I fyfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r brifysgol, mae diffyg gwybodaeth yn ei gwneud yn anoddach iddynt wneud penderfyniadau am addysg uwch.

9.21. Canfu astudiaeth ansoddol, a oedd yn ceisio deall y rhwystrau a'r hyn sy'n hwyluso mynediad i brifysgolion ymhlith pobl ifanc dan anfantais yn y DU yn ôl eu hethnigrwydd, fod myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig wedi nodi rhwystrau tebyg i'r rhai a wynebir gan fyfyrwyr gwyn difreintiedig wrth wneud cais i brifysgol (McCabe ac eraill, 2022). Mae'r canfyddiadau'n dangos bod materion ariannol yn rhwystr allweddol i fynediad i brifysgol, gan fod myfyrwyr o bob cefndir ethnig wedi sôn am hyn. Fodd bynnag, soniodd myfyrwyr ethnig lleiafrifol am y posibilrwydd nad yw mynd i brifysgol yn 'werth chweil', tra bod myfyrwyr gwyn yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent â diddordeb mewn mynd i brifysgol, ac yn ystyried bod cyfleoedd cyflogaeth heb radd yn fwy deniadol.

9.22. Mae llawer o gymhlethdodau i'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael ar ethnigrwydd a mynediad at addysg uwch a deilliannau, sy'n dangos anghydraddoldebau dyfnach parthed mynediad at sefydliadau tariff uchel a deilliannau sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Mae'n bwysig nodi bod ethnigrwydd, cefndir economaidd-gymdeithasol a rhyw yn croestorri, a bod y dystiolaeth yn dangos mai dynion ifanc gwyn o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel sy'n arddangos y cyfraddau isaf cyson o ran cyfranogiad mewn addysg uwch (Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2024).

## Anabledd – Cymru

9.23. Mae data Medr yn dangos bod cyfran y myfyrwyr anabl yng Nghymru yn cynyddu. Mae'r gyfran wedi cynyddu o 13% yn 2016–2017 i 17% yn 2022–2023

(Medr, 2025). Mae data diweddar Medr yn amlinellu bod 22% o'r cofrestriadau â darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn 2024–2025 gan fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd (Medr, 2026). Gallai hyn fod yn arwydd bod y rhwystrau y mae myfyrwyr anabl yn eu hwynebu o ran cael mynediad at addysg uwch yn lleihau. Fodd bynnag, mae hwn yn ddarlun cymhleth a allai hefyd fod wedi deillio o gynnydd yn nifer yr achosion o anableddau sy'n cael eu hadrodd ymhlith y boblogaeth o israddedigion.

## Anabledd – y DU

9.24. Yn 2020–2021, dywedodd 17.3% o'r boblogaeth o israddedigion yn y DU fod ganddynt anabledd, sy'n gynnydd o 47% ers 2014–2015 (TASO, 2023; yn dyfynnu'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn 2019–2020). Gellir esbonio'r cynnydd hwn, i raddau helaeth, drwy edrych ar y cynnydd sydd wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n nodi cyflwr iechyd meddwl (TASO, 2023). Ochr yn ochr â'r cynnydd hwn, bu gwelliannau yn y cymorth a'r ddarpariaeth i fyfyrwyr anabl yn gyffredinol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ar lefel y DU ac ar lefel sefydliadol (TASO, 2023). Mae UCAS wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl, ac mae cynnydd o 20% wedi bod yn nifer y datganiadau o anabledd ymhlith ymgeiswyr a dderbyniwyd yn 2022–2023 (Disabled Students UK, 2024). Fodd bynnag, myfyrwyr anabl yw un o'r grwpiau myfyrwyr lleiaf bodlon.

9.25. Mae amrywiad sylweddol yn natur 'anabledd,' ac o ganlyniad, amrywiad ym mhrofiadau myfyrwyr anabl o'r gwahanol rwystrau sy'n bodoli. Mae ystyriaeth fanwl o hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod myfyrwyr yn wynebu mathau gwahanol o anghydraddoldebau a rhwystrau mewn addysg uwch, gan gynnwys problemau hygyrchedd, profiad gwaeth fel myfyrwyr, a chanlyniadau is yn y farchnad lafur (TASO, 2023). Mae tystiolaeth gan Disabled Students UK yn 2024 hefyd yn nodi rhwystrau ychwanegol o ran arian a gwybodaeth, a lefelau uwch o orbryder (Disabled Students UK, 2024). Mae sut y mae anabledd yn croestorri â nodweddion eraill hefyd yn berthnasol wrth ystyried sut y mae gwahanol ffactorau yn cyfuno i amlygu rhwystrau.

9.26. Mae adroddiad UCAS, a ysgrifennwyd mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Myfyrwyr Anabl, sy'n archwilio profiadau myfyrwyr anabl a'u dilyniant i addysg uwch, yn rhoi cipolwg ar yr heriau y maent yn eu hwynebu (UCAS, 2022). Mae canfyddiadau o'u hymchwil yn dangos bod myfyrwyr anabl yn fwy tebygol o ohirio mynediad at addysg uwch oherwydd oedi mewn cymorth, a bod profiadau myfyrwyr anabl yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o amhariad, cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, a nodweddion personol eraill (UCAS, 2022).

9.27. Mae'n amlwg bod gan y boblogaeth gyfoes o fyfyrwyr mewn addysg uwch anghenion amrywiol, penodol a gwahanol, ac felly mae gwahanol rwystrau a all effeithio ar fynediad at addysg uwch ar eu pen eu hunain, neu ar y cyd â

nodweddion eraill. Mae Disabled Students UK yn galw am wybodaeth ddigonol i ddeall mwy am brofiadau myfyrwyr ar draws y sector, ac i gynyddu'r gwaith o fonitro profiadau myfyrwyr anabl a'r polisïau a'r arferion hynny sy'n galluogi prifysgolion i ddiwallu anghenion myfyrwyr anabl a lleihau rhwystrau (Disabled Students UK, 2024). Mae UCAS yn argymell bod y cynnydd ar gyfer myfyrwyr anabl yn dechrau'n gynharach, ac yn gofyn am fwy o dryloywder a manylion ynghylch y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr anabl mewn addysg uwch (UCAS, 2022).

## Pwysau ariannol a chostau byw – Cymru

9.28. Mae Cymru yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr prifysgol sy'n fwy hael na rhannau eraill o'r DU. Amlinellir hyn yn fanwl yn adroddiad y Senedd yn 2025 ar lwybrau at addysg ôl-16 (Senedd Cymru, 2025), a chafwyd diweddariad ar hynny yn y datganiad ysgrifenedig ar gymorth ariannol ar gyfer 2026–2027 (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn y papur diweddar gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, mae ymrwymiad i ddull blaengar o gynorthwyo myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion am y cymorth ariannol sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU i'w weld yn adroddiadau Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin o'r enw 'Higher education in the UK: Systems, policy approaches and challenges' (2024), a 'Student support for undergraduates across the UK in 2025/26' (2025).

9.29. Yng Nghymru, mae'r cymorth yn cynnwys benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu prifysgol (i'w had-dalu unwaith y bydd y myfyriwr wedi cwblhau ei gwrs, a bod ei incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu), a grant o £1,000 i hyd at £8,100 (£10,124 yn Llundain) i helpu gyda chostau byw, yn dibynnu ar incwm y teulu, ac a fydd y myfyriwr yn byw gyda'i rieni ai peidio. Gall myfyrwyr hefyd ychwanegu benthyciad o hyd at £12,345 at eu grant costau byw. Gall myfyrwyr ag anableddau a chyfrifoldebau gofal plant wneud cais am gymorth ariannol ychwanegol. Yn Lloegr nid oes unrhyw grantiau ar gael, a thrwy fenthyciadau myfyrwyr yn unig y mae cymorth cynhaliaeth ar gael.

9.30. Yng Nghymru, canfu data o arolwg incwm a gwariant myfyrwyr yn 2021–2022 (Llywodraeth Cymru, 2024) fod yr incwm o waith am dâl ar draws yr holl fyfyrwyr llawn-amser wedi cynyddu, ac wedi cyfrannu cyfran fwy at yr incwm cyffredinol. Yn 2021–2022, roedd 54% o fyfyrwyr llawn-amser yn gweithio yn ogystal ag astudio. O ystyried y cynnydd a ddangoswyd yn arolwg 2025 HEPI ledled y DU (isod) dros y tair blynedd diwethaf, bydd yn ddiddorol gweld a ydyw'r cynnydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn y data penodol i Gymru.

9.31. Mae costau prifysgol (ffioedd dysgu, costau byw a chostau benthyciadau) wedi'i nodi fel un o'r rhwystrau at addysg uwch a grybwyllwyd amlaf ymhlith rhanddeiliaid yng nghyd-destun addysg uwch, ac mae'n arbennig o berthnasol o ran atal y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is rhag mynd i'r brifysgol (Senedd Cymru, 2025). Fodd bynnag, yng Nghymru, mae'r Senedd wedi nodi

‘rhai gwrthfynegiadau ynghylch costau prifysgol i ddysgwyr yng Nghymru’; mae’r cymorth ariannol y mae Cymru’n ei gynnig i fyfyrwyr prifysgol yn hael o’i gymharu â gwledydd eraill y DU. Eto i gyd, mae costau prifysgol yn rhwystro llawer o ddysgwyr rhag mynd i brifysgol.’ (Senedd Cymru, 2025). Mae’r dystiolaeth o adroddiad gwerthuso Diamond (2026) yn awgrymu bod pryderon ariannol, yn enwedig yn ymwneud â deall cyllid myfyrwyr, ofn dyled, a chostau byw, yn parhau i fod yn bryderon parhaus sy’n gysylltiedig ag ymgysylltu ag addysg uwch. Fodd bynnag, i’r rhan fwyaf, mae'r dystiolaeth bresennol hon yn awgrymu er bod dyled myfyrwyr yn destun pryder, nid oedd wedi effeithio ar fynediad at addysg uwch.

## Pwysau ariannol a chostau byw – y DU

9.32. Ers yr argyfwng costau byw, mae yna bryder bod myfyrwyr addysg uwch mewn perygl o ddod yn ‘grŵp sy’n cael ei anghofio yn yr argyfwng costau byw’ (Tŷ’r Cyffredin, 2024). Mae costau byw misol myfyrwyr wedi cynyddu’n sylweddol, sy’n golygu nad yw lefel y cymorth ariannol ar draws holl wledydd y DU (nad yw wedi dal i fyny â’r cynnydd hwn) yn cyrraedd y safon byw gofynnol. Mae HEPI a Phrifysgol Loughborough yn crynhoi’r sefyllfa hon fel a ganlyn:

> Does dim dwywaith bod y cymorth ariannol presennol a ddarperir i fyfyrwyr yn annigonol, sy’n golygu eu bod yn methu â sicrhau safon byw boddhaol, hyd yn oed gyda chyflogaeth ran-amser sylweddol, sy’n aml yn gwrthdaro â’u perfformiad academaidd (HEPI a Phrifysgol Loughborough, 2024).

Mae’r argyfwng costau byw yn fwy tebygol o effeithio’n andwyol ar rai grwpiau, gan gynnwys myfyrwyr hŷn, myfyrwyr ag anableddau, myfyrwyr Du a lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, y rhai sy’n gadael gofal, a’r rhai sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd (Tŷ’r Cyffredin, 2025).

9.33. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod yr argyfwng costau byw yn effeithio’n negyddol ar y mwyafrif helaeth o fyfyrwyr ar ryw lefel ledled y DU, gyda chanlyniadau posibl sy’n effeithio ar eu hymgysylltiad ag addysg uwch, eu hiechyd meddwl a’u perfformiad academaidd. Mae data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) o Loegr yn dangos bod 92% o fyfyrwyr wedi nodi cynnydd mewn costau byw o flwyddyn i flwyddyn, a bod 91% yn bryderus am hyn. Roedd 78% yn ofni bod pwysau’r gost yn niweidio perfformiad academaidd, roedd 35% yn teimlo y byddent yn llai tebygol o ddilyn astudiaethau pellach wedi hynny, a dywedodd 46% bod eu hiechyd meddwl wedi dirywio ers dechrau blwyddyn academaidd 2022–2023 (SYG, 2023).

9.34. Tynnodd ymchwil i safon isafswm incwm gan HEPI a Phrifysgol Loughborough sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Gan addasu yn unol â phrisiau rhent mewn gwahanol rannau o'r DU, amcangyfrifir bod angen £18,632 y flwyddyn ar fyfyrwyr y tu allan i Lundain, a £21,774 y flwyddyn yn Llundain i gyrraedd safon isafswm incwm.

- Golyga hyn fod cymorth cynhaliaeth y Llywodraeth, a ddarperir i gynorthwyo myfyrwyr er mwyn diwallu eu costau byw, yn annigonol, hyd yn oed i fyfyrwyr sy'n cael y cymorth mwyaf sydd ar gael. Y bwlch yn achos myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Lundain yw £8,405 os ydynt yn hanu o Loegr; £6,482 os ydynt yn hanu o Gymru; £7,232 os ydynt yn hanu o'r Alban; a £10,496 os ydynt yn hanu o Ogledd Iwerddon.

- Yn achos y rhai sy'n astudio y tu allan i Lundain, 55% yn unig o gostau myfyrwyr y mae'r cymorth cynhaliaeth mwyaf yn Lloegr yn ei ddiwallu. Mae cymorth cynhaliaeth Cymru yn diwallu 65%, cymorth yr Alban yn diwallu 61%; a chymorth Gogledd Iwerddon yn diwallu 44% yn unig.

- Ni fydd gan fyfyriwr sy'n gweithio 10 awr yr wythnos mewn swydd am dâl am y flwyddyn gyfan, ac sy'n cael y cymorth cynhaliaeth mwyaf, ddigon o arian i dalu ei gostau byw. Byddai'n rhaid i fyfyrwyr o Loegr weithio bron i 19 awr yr wythnos am yr isafswm cyflog, myfyrwyr o Gymru 14 awr, myfyrwyr o'r Alban 16 awr, a myfyrwyr o Ogledd Iwerddon 23 awr er mwyn cyrraedd y safon byw gofynnol. I'r gwrthwyneb, mae llawer o brifysgolion yn argymell na ddylai myfyrwyr weithio mwy na 15 awr yn ystod y tymor (HEPI a Phrifysgol Loughborough, 2024).

9.35. Canfu canfyddiadau arolwg profiad academaidd myfyrwyr HEPI ledled y DU 2025 fod 68% o fyfyrwyr israddedig yn gwneud gwaith cyflogedig ochr yn ochr â'u hastudiaethau yn ystod y tymor. Mae hyn wedi cynyddu o 56% yn 2024 a 42% yn 2020 (HEPI 2025). Roedd hyn yn is na 50% dair blynedd yn ôl (HEPI, 2025). Ar draws y DU, mae mwy o fyfyrwyr yn gweithio yn ogystal ag astudio amser llawn er mwyn gallu fforddio i fyw bob dydd, a disgrifir y realiti hwn fel 'annigonolrwydd strwythurol y system gyllid i fyfyrwyr', sy'n golygu bod gweithio wedi dod yn angenrheidrwydd i fyfyrwyr (HEPI, 2025). Fodd bynnag, ychydig ddealltwriaeth sydd o hyd o ran ble y mae myfyrwyr yn gweithio, sut y maent yn cael mynediad at rolau, a sut y mae'r patrymau hyn yn amrywio ar draws sefydliadau (HEPI, 2025).

9.36. Mae goblygiadau sylweddol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith â thâl ar y lefel hon, a diffyg dealltwriaeth am yr effaith ehangach, fel y'u hamlygwyd yn fanwl mewn adroddiad ar fywydau gwaith myfyrwyr (HEPI, 2025). Mae'r adroddiad yn honni bod llawer o fyfyrwyr yn ymgymryd â llwyth gwaith cyffredinol o dros 50 awr yr wythnos pan ystyrir astudio, gwaith a theithio. Nid oedd hyn yn rhywbeth yr oedd cyrsiau addysg uwch amser llawn wedi cynllunio ar ei gyfer yn wreiddiol, ac mae'n effeithio ar yr ymrwymiad y gall myfyrwyr ei roi i'w cyrsiau mewn gwirionedd. Mae HEPI yn datgan bod:

natur esblygol bywydau myfyrwyr hefyd yn galw am sylw rheoliadol, yn enwedig mewn meysydd lle mae anghydraddoldebau o ran profiad yn amlwg. Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Fyfyrwyr [yn Lloegr] yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau drwy ei chofrestr risg cyfle cyfartal, sy'n nodi pwysau costau fel risg ac yn sail i ymyriadau i gynorthwyo grwpiau dan anfantais. Fodd bynnag, nid yw'r risg hon yn ystyried effaith gyfunol oriau gwaith cynyddol am dâl cynyddol yn llawn, nac ansawdd y gwaith ar ganlyniadau myfyrwyr, yn enwedig yn achos y rhai sy'n wynebu pwysau ariannol cynyddol (HEPI, 2025).

9.37. Mae'r goblygiad uniongyrchol o ran costau yn glir, ond mae goblygiadau anuniongyrchol i'r ansicrwydd ariannol hwn hefyd, sy'n tanseilio bywyd myfyrwyr a gallu myfyrwyr i lwyddo mewn addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr, yr effaith ar allu myfyrwyr i gymryd rhan mewn rhai agweddau ar fywyd prifysgol, eu profiad prifysgol cyffredinol, y risg uwch eu bod yn rhoi'r gorau i addysg, a'r oriau gwaith hir wrth astudio a gweithio ar yr un pryd, sy'n cynyddu'r risg eu bod yn gorflino, yn teimlo o dan straen ac yn ymddieithrio oddi wrth addysg uwch.

# 10. Rhwystrau sy'n dod i'r amlwg

10.1. Yn ogystal â'r rhwystrau strwythurol a amlinellwyd uchod, mae nifer o rwystrau eraill sy'n anuniongyrchol, yn dod i'r amlwg ac yn ganlyniad i ddigwyddiadau diweddar, megis pandemig COVID-19 a datblygiad prif ffrydio deallusrwydd artiffisial. Mae effaith gymdeithasol, economaidd ac addysgol y materion cyfoes arwyddocaol a phellgyrhaeddol hyn yn parhau i ddod i'r amlwg i bobl ifanc a'u taith tuag at addysg uwch. O ran pandemig COVID-19, mae'r ymchwil i gefnogi'r gwerthusiad o'r Diwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru 2026) yn nodi bod goblygiadau addysgol yn cynnwys presenoldeb ysgol is (sydd wedi effeithio ar gyflawniad academaidd a gallu myfyrwyr i fodloni gofynion mynediad prifysgol), a chynnydd mewn materion ymddygiadol a llesiant. Bu cynnydd hefyd mewn addysg ddewisol yn y cartref. Mae rhai o'r materion hyn wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol o fewn addysg uwch, ac wedi tynnu sylw at natur hen-ffasiwn rhai cyrsiau a dulliau cyflwyno addysg uwch o ystyried y pwysau ariannol a phwysau eraill y mae pobl ifanc yn eu hwynebu hyn o bryd.

## COVID-19

10.2. Mae llenyddiaeth yn awgrymu bod effaith COVID-19 ar addysg a chanlyniadau yn parhau, a bod yr effeithiau'n parhau i ddatblygu. Mae adroddiad 'Pathways for Potential' Grŵp Russell yn 2023 yn nodi, 'bydd effaith y pandemig [COVID-19] ar ddysgu pobl ifanc yn cael ei deimlo am flynyddoedd maith i ddod' (Le Carpentier, 2023), ac yn awgrymu ei fod wedi effeithio ar fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yn arbennig. Gostyngodd meincnodau a chyrhaeddiad o ran llythrennedd a rhifedd. Dywedodd yr adroddiad, 'gostyngodd cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 2 ym mhob pwnc, ac eithrio darllen, rhwng 2021 a 2022, a chynyddodd y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr difreintiedig a'u cyfoedion yn 2020 a 2021 yng nghyfnod allweddol 4 ac addysg 16–19.' (Le Carpentier, 2023). Mae adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar anghydraddoldebau addysgol yn priodoli hyn i brofiadau gwaeth o ran dysgu gartref, llai o fynediad at adnoddau gartref yn ystod cyfnodau clo, a phlant difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol, ac am gyfnod hirach na phlant o grwpiau mwy breintiedig (Farquharson ac eraill, 2022).

## Iechyd meddwl

10.3. Un agwedd ar bandemig COVID-19 sy'n bwysig o ran taith addysgol pobl ifanc i addysg uwch yw ei effaith ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Yr astudiaeth Symudedd Cymdeithasol a Chyfleoedd COVID-19 (COSMO) yw'r astudiaeth fwyaf o'i bath i effeithiau pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw ar gyfleoedd bywyd cenhedlaeth o bobl ifanc (gwefan COSMO, 2026). Mae briff gan COSMO yn 2023 ar iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc yn cydnabod, 'er bod

llawer o agweddau ar fywyd wedi dychwelyd i normal i raddau helaeth yn dilyn y pandemig, mae'r duedd hirdymor o ddirywiad mewn iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yn broblem barhaus' (Holt White ac eraill, 2023). Gofynnwyd i'r garfan a oedd yn rhan o'u hymchwil a oedd COVID-19 yn parhau i gael effaith ar unrhyw ran o'u bywyd. Dywedodd ychydig dros draean (33%) o bobl ifanc fod COVID-19 yn parhau i gael effaith negyddol ar eu haddysg (Holt White ac eraill, 2023).

10.4. Yn 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru (cyf) ymchwil er mwyn deall effaith y pandemig ar bobl ifanc mewn addysg ôl-16. Canfuwyd bod 52.9% o'r 1,821 o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf yr amharwyd ar eu dysgu yn ystod y 12 mis blaenorol oherwydd salwch meddwl (yn fwy nag unrhyw reswm arall). Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod 'iechyd meddwl a llesiant emosiynol gwael yn her sylweddol ymhlith dysgwyr mewn addysg ôl-16' (dyfynnwyd yn Senedd Cymru, 2025). Yn wir, mae protocol sy'n cwmpasu adolygiad o dueddiadau, bylchau a chyfeiriadau ymchwil ar iechyd meddwl myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU yn nodi'r canlynol:

> Mae heriau iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU wedi cyrraedd lefelau digynsail, gan ysgogi pryderon brys ar draws sectorau academaidd, clinigol a pholisi. Ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae myfyrwyr yn nodi cyfraddau uchel a chynyddol o iselder, gorbryder, trallod seicolegol, hunan-niweidio a hunanladdiad. Yn 2022, adroddodd Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU fod 37% o'r myfyrwyr wedi wynebu symptomau cymedrol i ddifrifol o iselder neu orbryder, sy'n sylweddol uwch na'r boblogaeth gyffredinol o'r un grŵp oedran (Cogan ac eraill, 2025).

10.5. Awgrymir bod tarfu ar addysg, ynysu cymdeithasol, straen ariannol, ac ansicrwydd cynyddol wedi cael effaith barhaol ar lesiant myfyrwyr, a bod hyn yn cynrychioli rhwystr sylweddol i bobl ifanc o ran cael mynediad at addysg uwch a gwneud cynnydd o fewn addysg uwch. Fel yr adlewyrchir drwy gydol yr adolygiad hwn, nid yw'r heriau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, ac mae grwpiau sydd o dan anfantais yn nodweddiadol, gan gynnwys myfyrwyr hŷn, myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr LHDTC+, myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr niwroamrywiol yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n dylanwadu ar iechyd meddwl a'u gallu i gael mynediad at gymorth (Cogan ac eraill, 2025).

10.6. Efallai bod y materion hyn yn treiddio i'r dewisiadau a wneir gan bobl ifanc ynghylch a ydynt am fynd ymlaen i addysg uwch ai peidio. Fel y nodwyd o'r ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond (Llywodraeth Cymru 2026), roedd ymdeimlad cynyddol o ansicrwydd ymhlith pobl ifanc ynghylch y dewis i fynd ymlaen i addysg uwch. Awgrymodd y cyfranogwyr fod nifer cynyddol o bobl ifanc yn cwestiynu'n weithredol ai'r brifysgol yw'r dewis cywir iddyn nhw:

nid yw pob pryder yn ymwneud ag arian. Disgrifiodd y rhai a gafodd eu cyfweld gynnydd mewn pryder cymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn dilyn y pandemig, gan gynnwys pryderon ynghylch gadael cartref, byw'n annibynnol, a rheoli llwythi gwaith academaidd. Mae darpar fyfyrwyr bellach yn gofyn mwy o gwestiynau am gymorth iechyd meddwl, asesiadau niwroamrywiaeth, a gwasanaethau llesiant: 'Nid arian yn unig sydd yn eu pryderu; maent yn poeni am ymdopi' (Llywodraeth Cymru, 2026).

10.7. Mae adroddiad yn 2023, a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Senedd, yn pwysleisio'r angen am gymorth iechyd meddwl cyson mewn lleoliadau addysg uwch yng Nghymru, ac yn cydnabod y gallai problemau iechyd meddwl presennol waethygu o ganlyniad i symud i addysg uwch, ac y gallai ddwysáu'r angen am gymorth iechyd meddwl ar unwaith (Senedd Cymru, 2023).

## Gwerth addysg uwch

10.8. Mae llawer o'r ffactorau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn (ac eraill) wedi arwain at gwestiynau sydd wedi'u dogfennu'n eang am 'werth' prifysgol i grŵp cynyddol amrywiol o bobl ifanc sy'n ystyried addysg uwch. Honnir bod rhai myfyrwyr ag anghenion amrywiol yn wynebu rhwystrau sy'n gwneud y model astudio llawn-amser traddodiadol yn anhygyrch neu'n hynod heriol. Gall hyn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, megis cyfrifoldebau gofalu, anableddau, iechyd meddwl, anfanteision economaidd, neu fod o grŵp ethnig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n ei gwneud yn anoddach i ddilyn y llwybr confensiynol. Efallai na fydd y model gradd israddedig llawn-amser tair blynedd mwyaf cyffredin yn addas i lawer o bobl y mae arnynt angen opsiynau mwy hyblyg (CCAUC, 2024).

10.9. Mae dadansoddiad polisi gan Wonkhe (2024), sy'n tynnu oddi ar astudiaeth CCAUC, a fu'n ystyried amrywiaeth o fodelau cyflwyno addysg uwch yng Nghymru, yn nodi:

> Gosodwyd sylfeini'r system addysg uwch ar adeg wahanol i fynd i'r afael ag anghenion carfan boblogaeth wahanol. Er y bydd y radd tair blynedd yn parhau i fod yn ganolog, mae ehangu'r ystod o ddewisiadau eraill yn hanfodol er mwyn hyrwyddo mynediad teg a thanio uchelgeisiau economaidd a chymdeithasol Cymru (Wonkhe, 2024).

10.10. Yn ogystal â'r anghydweddiad hwn, gall yr hinsawdd ariannol anodd i fyfyrwyr a phrifysgolion arwain at 'ddatgysylltiad rhwng disgwyliadau a realiti [sy'n] gofyn am ailystyried yr hyn y mae myfyrwyr yn ei ystyried yn werth am arian yn eu taith drwy'r brifysgol, a sut y gellir darparu gwerth am arian' (HEPI, 2025). Awgrymir y dylai prifysgolion ystyried modelau cyflwyno newydd er mwyn gwrthweithio pwysau costau byw a'r realiti bod myfyrwyr yn gorfod gweithio yn ogystal ag astudio. Un enghraifft y mae HEPI (2025) yn ei darparu yw'r 'dull bloc' o addysgu, sef model addysgeg sy'n ailstrwythuro'r calendr academaidd yn fodiwlau byrrach a dwysach, ac yn canolbwyntio'r dysgu ar lai o bynciau ar y tro.

Ei nod yw cynyddu effeithlonrwydd gweithredol a gwella parhad myfyrwyr trwy wella ffocws a lleihau gorlwytho gwybyddol. Mae hefyd yn cyddwyso'r amser y mae myfyrwyr yn ei dreulio ar y campws, gan ganiatáu iddynt allu rheoli cyfrifoldebau eraill yn well (HEPI, 2025).

## Canllawiau a gwybodaeth

10.11. Un mater yng Nghymru sydd werth ei ystyried wrth adolygu rhwystrau yw'r berthynas rhwng prifysgolion ac ysgolion, a'r wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr. Canfu'r Senedd, yn ei hymchwil i lwybrau at addysg ôl-16, fod ymgysylltiad addysg uwch â phobl ifanc wedi dirywio'n ddiweddar oherwydd bod llai o fynediad i fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau (Senedd Cymru 2025). Y rheswm a roddwyd am hyn oedd bod y cwricwlwm yn orlwythog, sy'n golygu nad yw athrawon a darlithwyr yn teimlo y gallant greu bylchau yn yr amserlenni er mwyn caniatáu i brifysgolion ymgysylltu â darpar fyfyrwyr. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd y mae addysg uwch yn eu cynnig (Senedd Cymru 2025).

10.12. Yn dilyn pandemig COVID-19, symudwyd rhywfaint o'r gwaith allgymorth gan brifysgolion a chanllawiau gan ysgolion ar-lein, ac awgrymir bod hyn wedi lleihau eu heffeithiolrwydd ymhlith myfyrwyr â mynediad digidol cyfyngedig neu fyfyrwyr a oedd yn cael llai o gymorth yn yr ysgol (Y Swyddfa Fyfyrwyr 2020). Yng Nghymru, mae ymchwil wedi dangos bod angen mwy o gymorth ar rieni a gofalwyr i helpu pobl ifanc i archwilio opsiynau ôl-16. Dengys canfyddiadau o Arolwg Rhieni Cenedlaethol 2023 mai dim ond 39% o rieni yng Nghymru ag unigolyn ifanc mewn addysg uwchradd neu ôl-16 sy'n cytuno bod ysgol neu goleg eu plentyn yn eu helpu i archwilio ystod eang o bosibiliadau o ran gyrfa (Senedd Cymru 2025). Mae canlyniadau'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond hefyd yn dangos bod pobl yn teimlo bod yr wybodaeth am gyllid myfyrwyr yn ddryslyd (Llywodraeth Cymru 2026). Mae'r cyfuniad hwn o dystiolaeth yn awgrymu y gallai gwahanol agweddau ar ddarpariaeth gwybodaeth a chanllawiau ôl-16 ac addysg uwch fod yn rhwystr i bobl ifanc rhag cael mynediad at yr wybodaeth y mae ei hangen i wneud dewisiadau ynghylch mynd i'r brifysgol. Wedi dweud hyn, mae angen ymchwil pellach i ddeall y berthynas rhwng gwahanol agweddau a dulliau allgymorth prifysgolion, arweiniad gyrfa ac addysg uwch, ac effaith mynediad digidol yn y maes hwn ar ymgysylltiad addysg uwch.

## Deallusrwydd artiffisial a swyddi graddedigion

10.13. Roedd y defnydd cynyddol o offer deallusrwydd artiffisial a gychwynnodd ddiwedd 2022 yn nodi dechrau defnyddio deallusrwydd artiffisial yn eang ar draws y byd. Roedd yn golygu bod gan weithwyr bellach yr offer i ysgrifennu a chrynhoi dogfennau mawr yn gyflym, dadansoddi data, a chyflawni nifer o dasgau gwybyddol eraill a oedd gynt yn gofyn am weithiwr dynol. Mae'r datblygiad hwn wedi achosi pryder ynghylch dyfodol gwaith, llwybrau gyrfa,

diweithdra ac aflonyddwch economaidd. Gan fod defnydd eang o ddeallusrwydd artiffisial yn parhau i fod yn newydd, nid yw effaith lawn deallusrwydd artiffisial ar waith a'r farchnad lafur yn glir eto.

10.14. Bu astudiaeth gan Goleg y Brenin, Llundain, yn edrych ar effaith modelau iaith mawr ar farchnad lafur y DU drwy ddadansoddi miliynau o hysbysebion swyddi yn y DU (2021–2025). Canfu fod 'rolau lefel mynediad wedi gostwng 5.8% mewn cwmnïau sy'n agored i ddeallusrwydd artiffisial, a bod yr effaith wedi'i chanolbwyntio mewn rolau proffesiynol mynediad' (Tesselink 2025). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r farchnad swyddi ar gyfer graddedigion fod yn newid yn rhannol yn dilyn datblygiad deallusrwydd artiffisial yn y gweithle, gyda honiadau bod deallusrwydd artiffisial yn ail-lunio'r farchnad lafur ac yn achosi gostyngiad mewn rolau lefel graddedig. Fodd bynnag, mae ymchwil arall a amlygwyd yng nghrynodeb Senedd y DU ar ddeallusrwydd artiffisial a chyflogaeth (Senedd y DU 2026) yn cyfeirio at adroddiad gan McKinsey yn 2025, a awgrymodd fod gostyngiad mewn cyflogaeth graddedigion yn y DU yn fwy tebygol o gael ei achosi gan resymau eraill, megis costau cyflogaeth cynyddol (Tŷ'r Cyffredin 2026).

10.15. Mae ansicrwydd ynghylch sut y bydd deallusrwydd artiffisial yn effeithio ar y farchnad swyddi ar gyfer graddedigion; gall achosi i swyddi gael eu colli, ond gallai hefyd greu rolau newydd. Mae'n bosibl bod y datblygiadau hyn yn effeithio ar werth canfyddedig addysg uwch ym marn pobl ifanc, sydd â chysylltiad cryf â chanlyniadau llwyddiannus yn y farchnad lafur, a gallai fod yn rhwystr anuniongyrchol o ganlyniad i ganfyddiadau myfyrwyr a newid mewn ymddygiad.

# 11. Casgliadau

11.1. Mae’r adolygiad hwn wedi ystyried tystiolaeth ddiweddar o Gymru a’r DU ar yr ystod o rwystrau sy’n bodoli i lesteirio mynediad at addysg uwch yng Nghymru, a dilyniant o fewn addysg uwch. Canfuwyd bod y sefyllfa’n gymhleth iawn ac yn amlhaenog. Mae rhwystrau strwythurol hirhoedlog, megis anghydraddoldebau addysgol parhaus a system gyllid fyfyrwyr nad yw’n caniatáu safon byw gofynnol heb orfod troi at waith am dâl, ynghyd â rhwystrau mwy diweddar a ffurfiwyd o ganlyniad i ddatblygiadau iechyd, cymdeithasol, economaidd a thechnolegol ar raddfa fawr a phellgyrhaeddol.

11.2. Y canlyniad yw tirwedd addysg uwch sydd wedi’i newid, lle mae angen mynd i’r afael â’r cymysgedd hwn o rwystrau mewn gwahanol ffyrdd i gyd-fynd â bywydau myfyrwyr cyfoes, anghenion llesiant a rhagolygon y farchnad lafur. Mae HEPI yn galw ar lywodraethau i gydnabod realiti ariannol bywydau myfyrwyr, ac alinio penderfyniadau polisi ariannol â safon incwm gofynnol i fyfyrwyr (HEPI a Phrifysgol Loughborough, 2024). Mae’r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn cydnabod ‘na all y system addysg ar ei phen ei hun ddatrys anghydraddoldebau addysgol [gan eu bod] o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd ehangach ac yn ei achosi’ (Farquharson ac eraill, 2022).

11.3. Yng Nghymru mae rhwystrau penodol yn cyfyngu ar gyfranogiad mewn addysg uwch, yn enwedig ymhlith dynion ifanc. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod rhwystrau ymarferol, diwylliannol, daearyddol, ariannol, sefydliadol, a rhwystrau o ran cyrhaeddiad yng Nghymru, yn effeithio ar lwybr pobl ifanc i’r brifysgol. Gallai ymchwil pellach ymchwilio i’r meysydd hyn yn fanylach ar wahân i ddeall sut y mae’r rhwystrau hyn yn gweithredu, a sut y gellid mynd i’r afael â nhw.

## Cyfeiriadau


Cogan, N. Murray, A. Long, E. Gardani, M. O'Toole, M. Leung, M. Kyratzi, S. Milicev, J. Dryburgh, K. Bolota, C. Ho, L. (2025). Student mental health in UK higher education institutions: Protocol for a scoping review of trends, gaps, and research directions JMIR Research Protocols. Volume 14, 2025 [accessed December 2025]

The COVID Social Mobility and Opportunities study (2026) COSMO website [accessed February 2026]

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (2024). Investigative study of HE delivery in Wales Executive Summary [accessed October 2025]

Farquharson, C. McNally, S. Tahir, I. (2022). Institute for Fiscal Studies. Education inequalities | Inequality: the IFS Deaton Review [accessed December 2025]

Disabled Students UK (2024). Access Insights Report [accessed February 2026]

Henderson, M. Shure, N. & Adamecz-Völgyi, A. (2019). Institute of Labor Economics 'First in Family' University Graduates [accessed January 2026]

Higher Education Policy Institute & Loughborough University (2024). A Minimum Income Standard for Students [accessed January 2026]

Higher Education Policy Institute (2025). Evolution of Devolution: how higher education policy has diverged across the four nations of the UK [accessed November 2025]

Higher Education Policy Institute (2025). Student Working Lives [accessed November 2025]

Higher Education Policy Institute (2025). Student academic experience survey 2025 [accessed January 2026]

Hillman, N. & Brooks, M (2025). Higher Education Policy Institute. Boys will be boys: The educational underachievement of boys and young men [accessed December 2025]

HM Government (2025). Post-16 Education and Skills pdf. Department for Education. [accessed October 2025]

Holt-White, E. Latham, K. Anders, J. Cullinane, C. Montacute, R. Shao, X. & Yarde, L. (2023). Covid Social Mobility and Opportunities Study. Briefing No. 1 - Mental and physical health [accessed January 2026]

House of Commons Library (2024) Higher education in the UK: Systems, policy approaches and challenges. Research Briefing. pdf. [accessed October 2025]

House of Commons Library (2025). Equality of access and outcomes of higher education in England [accessed December 2025]

House of Commons Library (2025). Student support for undergraduates across the UK in 2025/26 [accessed January 2026]

Huxley, K. & Davies, R. (2024). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Deall annhegwch mewn addysg drydyddol pdf. [accessed February 2026]

Institute for Fiscal Studies (2024). Major challenges for education in Wales [accessed November 2025]

Le Carpentier, C. & Chandler, H. (2023). Pathways for Potential 2023 Russel Group [accessed November 2025]

Llywodraeth Cymru (2024). Arolwg o incwm a gwariant myfyrwyr [accessed January 2026]

Llywodraeth Cymru (2024). Diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr: cynllun gwerthuso 2024 [accessed October 2025]

Llywodraeth Cymru (2024). Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16: Ebrill i Mai 2024 [accessed February 2026]

Llywodraeth Cymru (2025). Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 [accessed January 2026]

Llywodraeth Cymru (2025). Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a mwy: adolygiad data [accessed February 2026]

Llywodraeth Cymru (2025). Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ariannol a therfynau ffioedd dysgu i fyfyrwyr addysg uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 [accessed January 2026]

Llywodraeth Cymru (2025). Copïau o bapurau briffio ar y mater o'r cyhoeddiad diweddar gan Brifysgol Caerdydd am doriadau. [accessed February 2026]

Llywodraeth Cymru (2026). Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau accessed February 2026]

Llywodraeth Cymru (2026). Research to support the evaluation of the Diamond Reforms to higher education in Wales (forthcoming)

Llywodraeth Cymru StatsCymru) 2026). Cofrestriadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym Mlwyddyn 11/disgyblion 15 oed) yn ôl Prydau Ysgol am Ddim (PYD) | StatsCymru [accessed February 2026]

London Economics, Nuffield Foundation & Higher Education Policy Institute (2024) Examination of higher education fees and funding in Wales pdf [accessed February 2026]

McCabe, C. Keast, K. & Kaya, M. S. (2022). Barriers and facilitators to university access in disadvantaged UK adolescents by ethnicity: a qualitative study Journal of Further and Higher Education, 46(10), pages 1434 to 1446. [accessed November 2025]

Medr (2025) Mesurau Monitro Cydraddoldeb Hiliol Addysg Uwch [accessed December 2025]

Medr (2025) Nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch: 2016/17 i 2022/23 [accessed December 2025]

Medr (2026) Myfyrwyr mewn Addysg Uwch, 2024/25[accessed February 2026]

Mills, C. (2021). Welsh Government. Adolygu'r dystiolaeth: anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal [accessed December 2025]

Nesom, S. Silva, L. Skeels, A. Taylor-Collins, E. Hill-Dixon, A. & Price, J. (2024). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Evidence review widening participation in tertiary education. pdf [accessed November 2025]

Office for Economic and Social Development (2026). PISA: Programme for International Student Assessment [accessed January 2026]

Office for National Statistics (2023) Cost of living and higher education students, England 2023 [accessed January 2026]

Office for Students (2020) Supporting disadvantaged students through higher education outreach briefing note [accessed January 2026]

Office for Students (2025) OfS analysis finds continued pressure on university finances. [accessed January 2025]

Pember, S. Tilley, H. Price, J. Gomes, L.P. (2021). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru [accessed February 2026]

Senedd Cymru (2023). Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch [accessed February 2026]

Senedd Cymru (2025). Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 [accessed November 2025]

Sibieta, L. (2024). Institute for Fiscal Studies Major challenges for education in Wales [accessed November 2025]

Sibieta, L. & Miles, J. (2024). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Deall annhegwch mewn addysg drydyddol. [accessed February 2026]

Robson, J. Sibieta, L. Khandekar, S. Neagu, M. James Relly, S. Robinson, D. (2024). Education Policy Institute and the Oxford University Centre for Skills, Knowledge and Organisational Performance. Comparing policies, participation and inequalities across UK post-16 education and training landscapes. [accessed December 2025]

Teeselink, B. K. (2025). SSRN. Generative AI and labour market outcomes: evidence from the United Kingdom [accessed February 2026]

Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education (2023). The value of higher education [accessed November 2025]

Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education (2023). What works to reduce equality gaps for disabled students [accessed December 2025]

UCAS (2022). Next steps: What is the experience of disabled students in education.pdf [accessed January 2026]

UCAS (2025) Senedd Parliamentary Constituency dashboard end of cycle 2025 [accessed February 2026]

UK Parliament (2025). Artificial intelligence (AI) and employment [accessed January 2026]

Wonkhe (2024). Moving the higher education delivery debate forward in Wales [accessed December 2025]